# DANGOSFWRDD LLAETH

Ionawr – Ebrill 2019

FARMING connect cyswllt FFERMIO

**% o'r oll weithgarwch yn y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector Llaeth**

**53%** GWEITHGAREDD LLAETH

**96%** O FFERMYDD LLAETH CYMRU WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO

## Prosiectau Safleoedd Arddangos

### Cynllun Rheoli Mastitis

Mae canlyniadau cadarnhaol yn dod i'r amlwg wedi dim ond 6 mis ar ôl cychwyn y prosiect yn Safle Ffocws Fferm Longlands i leihau nifer yr achosion o fastitis yn y fuches.

- Mae gan 15% o'r buchod gyfrif celloedd somatig o >200,000 cell fesul mililitr, gostyngiad o'i gymharu â chyfartaledd treigl 2018 (20%)
- Roedd cyfraddau heintiau newydd yn ystod y cyfnod hysb yn <10% ar ddechrau 2019, o'i gymharu ag 20.5% yn 2018
- Mae'r gyfradd iachau ar gyfer heintiadau yn ystod y cyfnod hysb wedi cynyddu o 68.4% yn 2018 i 90% ar ddechrau 2019
- Mae'r arbedion costau hyd yn hyn yn £18 y fuwch rhwng Hydref 2018 a Mawrth 2019

### Defnyddio brechlyn Mycoplasma bovis pwrpasol i ddiogelu iechyd buches

Mae Safle Ffocws Fferm Wern ger Caerfyrddin wedi bod yn defnyddio brechlyn pwrpasol i fynd i'r afael â phroblem â Mycoplasma bovis, bacteriwm hynod o heintus sy'n gyfrannwr pwysig at niwmonia mewn lloi, ac mae'n gysylltiedig hefyd â meningitis a heintiau'r llygaid a'r clustiau, yn ogystal ag arthritis, mastitis, erthylu ac anffrwythlondeb mewn buchod yn eu llawn dwf.

Cafodd buchod Fferm Wern eu brechu chwe wythnos a thair wythnos cyn lloea, i ganiatáu trosglwyddo imiwnedd yn oddefol i'w lloi. Yna, cafodd y lloi y brechlyn bythefnos a phedair wythnos ar ôl eu geni.

Roedd marwolaethau lloi o adeg eu geni i adeg ddiddyfnu ym mis Ionawr wedi bod yn 63%, ond fe wnaeth y cyntaf o'r buchod a gafodd eu brechu loea ar 10 Chwefror ac fe wnaeth y gyfradd marwolaethau ym mis Chwefror ostwng i 32%, ac roedd y mwyafrif o'r rhain wedi'u hachosi gan ysgothi.

Cafodd pum can dôs o'r brechlyn – digon i ddiogelu 125 o loi – eu cynhyrchu ar gyfer yr arbrawf yn Fferm Wern, ac roedd pob dôs yn costio £7.50, sef cyfanswm o £30 i amddiffyn un llo. Byddai hyn yn rhatach yn y tymor hir pe bai nifer fwy o ddosiau yn cael eu harchebu.

### Samplu glaswellt ffres yn gynnar yn cynnig sicrwydd ynghylch troi stoc allan a phori yn gynnar

Mae Fferm Rhiwlas ger y Bala, wedi samplu rhywfaint o laswellt ffres cynnar i sicrhau bod buchod sydd newydd loea yn ystod y gwanwyn yn defnyddio glaswellt o'r radd flaenaf yn hytrach na dwysfwydydd a chnydau porthiant cadwedig drutach. Y flaenoriaeth yw lleihau costau porthi heb leihau ansawdd porthiant, ac ar sail cyfanswm y gost fesul cilogram o ddeunydd sych, mae glaswellt a borir yn werth 10c/KgDM, mae silwair yn werth 14c/KgDM, a dwysfwydydd yn werth 23c/KgDM. Yn ôl AHDB, dylai silwair glaswellt sydd wedi'i gynhyrchu a'i silweirio'n dda dargedu 12ME (egni metaboladwy) a CP (protein crai) o 15-17.5%. Bydd lefelau ME a CP yn aml yn uwch mewn glaswellt a gynhyrchir yn gynnar yn y gwanwyn.

Gwnaed y samplu ar 28/02/19

| Analysis (Dry Matter) | | Result | Low – High |
|---|---|---|---|
| Dry Matter | % | 19.3 | |
| Crude Protein | % | 23.8 | |
| ME | MJ/kg | 12.4 | |
| Sugars | % | 6.5 | |
| NDF | % | 45.5 | |
| ADF | % | 20.5 | |
| Oil A | % | 5.2 | |
| Free Nitrates - Fresh | mg/kg | 100.0 | |

### Defnyddio mwy o laswellt a gaiff ei bori i leihau costau

Mae Safle Arddangos Fferm Moor wedi buddsoddi mewn seilwaith, yn cynnwys traciau buchod, i ymestyn y tymor pori ar ddechrau'r gwanwyn a diwedd yr hydref.

Mae'r ffermydd mwyaf proffidiol yn llwyddo i ddefnyddio 80-85% o'r glaswellt a dyfir. Gall cynyddu'r cyfanswm a ddefnyddir o chwech i saith tunnell fetrig yr hectar arwain at gynnydd o £245/ha mewn elw net. Yn achos fferm 100ha, mae hyn yn golygu £23,500 o elw net ychwanegol bob blwyddyn.

Bydd buchod Fferm Moor yn pori 2,500kg/ha o laswellt cyntaf y flwyddyn, a thrwy fesur yn rheolaidd, gellir rheoli cyflenwadau porthiant ac anelu at gyflawni cymeriant glaswellt dyddiol o 16-17kg o ddeunydd sych fesul buwch. Glaswellt a gaiff ei bori yn ystod y cylchdro cyntaf yw'r porthiant rhataf un – gall gostio cyn lleied â £10-£20 fesul tunnel fetrig o ddeunydd sych – ond os na chaiff ei ddefnyddio oherwydd y ffaith na chaiff buchod eu troi allan yn ddigon cynnar, collir y cyfle i gael porthiant rhad a bydd ansawdd a chynhyrchiant cylchdroeon dilynol yn salach.

## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd:

- DEFNYDDIO TECHNOLEG DELWEDDAU THERMOL I WELLA GWAITH CYNHYRCHU DA BYW
- LLUNIO PROFFILIAU METABOLIG O FUCHOD GODRO I WELLA EFFEITHIOLRWYDD A CHYNYDDU CYNHYRCHIANT
- AR RADAR Y FFERMWR: Y 10 PRIF DUEDD DECHNOLEGOL I AMAETHYDDIAETH
- NWY TŶ GWYDR BYCHAN OND MARWOL: SUT I LEIHAU ALLYRIADAU METHAN O DDA BYW

Taflenni ffeithiau a gynhyrchwyd:

- GWAHANU SLYRI
- SILWAIR AML-DORIAD

## Grwpiau Trafod

**46** CYFARFOD GRWPIAU TRAFOD LLAETH a gynhaliwyd gyda **455** O FYNYCHWR

**Nifer y Grwpiau Trafod Llaeth: 31**

### Astudiaeth Achos

Fe wnaeth Keith Owen o Kebeck ymweld â chyfarfod Grŵp Trafod Grazing Gogs ym mis Ebrill i drafod seilwaith ffermydd, gan ystyried y tri phrif faes dilynol:

- Storio a thrin a thrafod silwair a slyri
- Effaith halogi gan dŵr glaw ar storio
- Deddfwriaeth bresennol a materion y dyfodol

Yn dilyn hyn, fe wnaeth Keith bwysleisio beth yw effaith halogi gan ddŵr glaw ar y capasiti storio ac y dylid rhoi sylw i'r mater hwn yn gyntaf. Gall gorchuddio lloc cadw ac ailgyfeirio'r dŵr glaw yn unig ddylanwadu'n enfawr ar y capasiti storio, ac mewn rhai achosion, gall olygu bod fferm yn cydymffurfio â'r gofynion. I amlygu hyn, dywedodd Keith wrth y grŵp bod lagŷn slyri nodweddiadol yn cynnwys 30% o slyri, 25% o ddŵr golchi o'r parlwr, 25% o ddŵr glaw o'r llociau ac 20% o ddŵr glaw o'r storfa silwair.

Dangoswyd lluniau o arferion gwael i'r grŵp i ddangos beth all ddigwydd os yw'r storfa silwair yn annigonol neu ddim yn cydymffurfio â'r safonau, a sut mae hyn yn groes i reoliadau NVZ/SSAFO.

Y neges gyffredinol oedd y gellir gwneud newidiadau syml mewn rhai achosion i leihau cyfaint slyri, ac yn y pen draw, lleihau'r perygl o halogi dŵr.

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

**Cynlaliwyd 59 o Ddigwyddiadau gyda 2434 o fynychwr**

Enghreifftiau o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn:

- FFERMIO AR GYFER Y DYFODOL (GRANT BUSNES I FFERMYDD)
- SIOE DEITHIOL IECHYD A DIOGELWCH
- GWNEUD TRETH YN DDIGIDOL
- GRANT CYNHYRCHU CYNALIADWY 2

*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn rhai traws-sector sy'n tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector, yn cynnwys y sector Llaeth.

## Cymorthfeydd

**Cynhaliwyd 39 Cymhorthfa**

Roedd y pynciau yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| 2 GYMHORTHFA ADOLYGIAD BUSNES DIGIDOL | 9 CYMHORTHFA OLYNIAETH |
| 1 GYMHORTHFA OLYNIAETH DDIGIDOL | 6 CYMHORTHFA CYNLLUNIO |
| 9 CYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO | 5 CYMHORTHFA TG |
| 2 GYMHORTHFA RHEOLAETH ARIANNOL | 2 GYMHORTHFA OLYNIAETH DDIGIDOL |
| 2 GYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO DDIGIDOL | 1 GYMHORTHFA CYNLLUNIO DDIGIDOL |

Mae'r cymorthfeydd un ac un y byddwn yn eu darparu ar gael i bob sector, yn cynnwys y sector Llaeth, sy'n golygu y gellir rhannu cyngor arbenigwyr ymhellach. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth **209** o fusnesau llaeth fynychu cymorthfa, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

## Agrisgôp

CYNHALIWYD **45** CYFARFOD Â THEMA LLAETH GYDA **235** O FYNYCHWR

Roedd themâu'r grwpiau yn cynnwys:

- Archwilio Mentrau ar y Cyd
- TB – yr effaith go iawn
- Iechyd a Geneteg Buchesi
- Grymuso'r diwydiant llaeth – gweld y fferm trwy lygaid pobl eraill

## Rhaglen Mentora

MAE **58** O FFERMWYR LLAETH yn cael eu mentora ar hyn o bryd

Cliciwch yma i weld y Cyfeiriadur Mentoriaid llawn

Mae'r pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

- Diogelwch cywasgwyr aer mewn parlyrau godro
- Menter llaeth ar y cyd
- Godro robotig
- Gweithredu newidiadau a thargedau

## Mentro

**3** DARPARWR LLAETH NEWYDD

**8** CEISIWR LLAETH NEWYDD

**10 PARTNERIAETH LLAETH** yn cael eu cefnogi trwy'r Gwasanaeth Cynghori ar hyn o bryd

Cafodd 2 Fenter Llaeth ar y Cyd newydd eu sefydlu trwy'r rhaglen Mentro yn ystod y cyfnod hwn

Cyfleoedd presennol sydd ar gael:

| Nifer y cyfleoedd a gynigir: | Cyfanswm arwynebedd y tir a gynigir: |
|---|---|
| 1 UNED LAETH | 47 HECTAR (UNEDAU LLAETH YN UNIG) |

## Cyfnewidfa Rheolaeth

Cafodd adroddiad cyfnewidfa rheolaeth Rhys Davies ei gyhoeddi ar y wefan yn ystod y cyfnod hwn.

Fe wnaeth Rhys ymweld ag Iwerddon ar ddiwedd mis Hydref 2018 i archwilio effaith EBI ar fuchesi a gedwir ar borfa ac sy'n lloea yn y gwanwyn yn Iwerddon.



Cliciwch yma i ddarllen ei adroddiad.

## Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **58** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb ar gyfer unigolion o fewn y sector Llaeth.

| GWELLA BUSNES | HYFFORDDIANT TECHNEGOL | DEFNYDDIO PEIRIANNAU AC OFFER |
|---|---|---|
| 19 | 22 | 17 |
| UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT | UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT | UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT |

## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

- CYLLID FFERM
- CLOFFNI GWARTHEG
- BIODDIOGELWCH
- EFFEITHLONRWYDD PORTHIANT

Cliciwch yma i ymweld â'r wefan.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government